Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Stuart Rosser
Prif Weithredwr Dros Dro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7WF

26 Mawrth 2014

Annwyl Mr Rosser

**Ymweliad Monitro gan Estyn 21-23 Ionawr 2014**

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Gorffennaf 2012, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod, ar ffurf monitro gan Estyn. Yn sgil hynny, cytunwyd ar gynllun monitro gyda'ch arolygydd cyswllt yn Estyn. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro cyntaf o 9 i 10 Hydref 2013. Cynhaliwyd yr ail ymweliad monitro, sef yr ymweliad terfynol, o 21 i 23 Ionawr 2014. Mae'r llythyr hwn yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro gan Estyn ar ôl yr arolygiad.

Yn Ionawr 2014, arweiniodd Mrs Jane Taylor AEM dîm o dri arolygydd i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn y ddau o'r pum argymhelliad a oedd yn weddill yn sgil yr arolygiad, ac i ystyried perfformiad cyffredinol yr awdurdod yn unol â'i gynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid a chynrychiolwyr partneriaid. Bu arolygwyr yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn gysylltiedig â phob un o argymhellion Estyn.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau i chi fel prif weithredwr dros dro, ac i arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes, y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes, y rheolwr dysgu, addysg a chynhwysiant a phrif arweinydd system y consortiwm rhanbarthol.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Aeth yr awdurdod ati'n gyflym i fynd i'r afael â'r argymhellion yn arolygiad 2012. Yn ystod cyfnod o newid sylweddol ymhlith uwch reolwyr, mae'r cyngor wedi dangos ymrwymiad cadarn i wella'u gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

Mae’r arweinydd, ynghyd â’r aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes, y prif weithredwr dros dro, y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes a’r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, wedi sicrhau bod y gwaith hwn wedi mynd yn ei flaen yn dda. Mae’r awdurdod wedi sefydlu sylfeini gwell i barhau i ysgogi’r gwelliannau mewn cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer pob dysgwr.

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn sgil arolygiad Gorffennaf 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

**Argymhelliad 1: Gweithredu strategaethau gwella a chamau gweithredu penodol i wella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 3 a 4**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad blaenorol yn 2012, mae’r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd addas yn mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn.  Gan weithio’n agos gyda’r gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, mae wedi datblygu ystod o strategaethau a chamau gweithredu penodol defnyddiol i wella deilliannau i ddysgwyr.

Yn benodol, mae’r awdurdod lleol wedi cyflwyno proses gynhwysfawr o osod targedau sy’n cysylltu targedau perfformiad ysgolion â chynnydd dysgwyr unigol. Mae’n ofynnol i ysgolion nodi rhwystrau posibl rhag llwyddiant ar gyfer dysgwyr unigol ym mlynyddoedd 10 ac 11.  Mae’r targedau a gynhyrchir gan ysgolion yn heriol iawn ac yn gosod y glir yr uchelgais i wella ar draws yr awdurdod.  Mae’r broses o osod targedau’n arwain at raglenni cymorth i ddysgwyr sydd wedi’u cydlynu ac sydd ag adnoddau da.  Mae ffocws addas ar weithio gyda theuluoedd dysgwyr targedig a, lle y bo’n briodol, mae’r cymorth yn cynnwys cysylltiadau â rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf.  Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion rhanbarthol a swyddogion yr awdurdod lleol ac ysgolion yn sicrhau bod y cynnydd a wneir gan y dysgwyr hyn yn cael ei fonitro’n agos.

Yn ogystal, mae’r awdurdod lleol wedi cynnal adolygiad o’r ddarpariaeth 14-19 oed i sicrhau bod y bartneriaeth yn cyflwyno’r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr.  Erbyn hyn, mae gan y gwaith hwn ffocws cadarn ar wella’r cwricwlwm a’r deilliannau i ddysgwyr agored i niwed sy’n aml yn cael addysg heblaw yn yr ysgol.  Mae’r awdurdod lleol yn cynyddu’r cyfleoedd i ddysgwyr gael achrediadau drwy ei wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae’r ysgolion y nodwyd bod angen cymorth arnynt ar gyfer Saesneg, Cymraeg mamiaith neu fathemateg yn cael cymorth cwricwlaidd da gan swyddogion rhanbarthol.  Mae cymorth yn y dosbarth ar gyfer mathemateg eisoes wedi helpu i wella perfformiad mewn ysgolion â blaenoriaeth.  Mae ysgolion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd datblygu proffesiynol i wella arweinyddiaeth ar lefelau arweinwyr canol ac uwch.

Mae perfformiad yng Nghaerffili yn gryfaf yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 lle y mae'r deilliannau uwchlaw'r cyfartaledd ym mron pob un o'r dangosyddion o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim. Yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, fe wnaeth yr awdurdod lleol fodloni meincnodau disgwyliedig Llywodraeth Cymru mewn dau o'r tri dangosydd yn 2013. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad ysgolion yng Nghaerffili o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail yr hawl i brydau ysgol am ddim uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau, hynny yw, y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio a dangosyddion trothwyon lefel 1 a lefel 2, islaw'r cyfartaledd. At ei gilydd, nid yw strategaethau gwella'r awdurdod lleol wedi effeithio'n sylweddol ar ddeilliannau yng nghyfnod allweddol 4 hyd yn hyn.

**Argymhelliad 2: Cryfhau lefel yr her i'w ysgolion uwchradd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r awdurdod, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, wedi gwella prosesau i gefnogi, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion uwchradd yn sylweddol.

Mae'r arweinyddion system a swyddogion yr awdurdod addysg yn adnabod eu hysgolion yn dda iawn. Defnyddiant ddata manwl ar berfformiad pob disgybl i herio tanberfformiad ac i dargedu ymyriadau effeithiol. Caiff y data hwn ei ddefnyddio'n dda i godi disgwyliadau athrawon ar gyfer eu disgyblion a gwneud yn siŵr bod targedau ar gyfer cyrhaeddiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn ddigon heriol.

Mae uwch swyddogion yn yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda swyddogion arweiniol yn y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i wneud yn siŵr bod her gyson a thrylwyr i ysgolion. Maent wedi datblygu diwylliant o her i'r naill a'r llall sy'n dwyn swyddogion ac ysgolion i gyfrif am welliant yn effeithiol. Mae prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn gadarn ac maent yn galluogi rheolwyr i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghysondeb neu ddiffyg her yn gyflym.

At ei gilydd, mae arweinwyr system yn defnyddio'r broses i ddosbarthu ysgolion uwchradd yn ôl risg ac i gynllunio ymyriadau priodol yn dda. Mae gan benaethiaid ddealltwriaeth glir o gategori eu hysgol, y cymorth a gânt o ganlyniad a'u rôl yn ysgogi gwelliant. Mae arweinwyr system yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion i ddwyn arweinwyr uwch ac arweinwyr canol i gyfrif.

Mae'r ysgolion y nodwyd bod angen cymorth dwys arnynt yn cael cynlluniau ymyrryd defnyddiol a chynhwysfawr sy'n amlinellu'n glir y camau i'w cymryd. Mae'r cynlluniau hyn a'r cynnydd a wna'r ysgol o ran eu gweithredu, yn cael eu herio'n drylwyr gan yr aelod cabinet dros addysg ac uwch swyddogion o'r awdurdod a'r gwasanaeth rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys her gadarn i ysgolion sy'n tanberfformio yng nghyfnod allweddol 4. Os nad yw ysgolion yn gwneud digon o gynnydd, mae'r awdurdod yn cynllunio'n glir i ddefnyddio'i bwerau llawn i herio'r ysgol ymhellach.

Mae ansawdd y cofnodion ysgrifenedig o ymweliadau ag ysgolion uwchradd wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r adroddiadau hyn yn arfarnol ac yn nodi'n glir

y meysydd i’w gwella, gan helpu ysgolion a’u cyrff llywodraethol i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella.  Mae adolygiadau diweddar o arweinyddiaeth a rheolaeth yn arbennig o ddefnyddiol a rhoddant negeseuon clir i ysgolion a’u cyrff llywodraethol ynghylch y materion y mae angen mynd i’r afael â nhw.

Mae’r cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion uwchradd yn dda.  Mae swyddogion o’r timau llythrennedd a rhifedd rhanbarthol yn darparu cyfarfodydd rhwydwaith bob tymor i wella medrau arweinwyr pwnc ac i’w herio i wella perfformiad eu hadrannau.

Mae’r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi darparu offeryn cynhwysfawr i ysgolion arfarnu a gwella ansawdd yr addysgu.  Mae ysgolion sy’n defnyddio’r adnodd hwn yn gallu monitro ymarfer yn y dosbarth a mynd i’r afael â thanberfformio yn well.

Mae’r awdurdod wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i lywodraethwyr ysgolion uwchradd i’w helpu i ddeall perfformiad eu hysgol.  Mae arweinwyr system yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol i gyflwyno adroddiadau ar arweinyddiaeth, darpariaeth a pherfformiad yn yr ysgol.   Hefyd, darparant adroddiadau ysgrifenedig i’r corff llywodraethol.  O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn deall yn well y problemau sy’n wynebu eu hysgolion a’r meysydd y mae angen eu gwella.

At ei gilydd, mae’r dull cydlynus, sy’n cynnwys uwch swyddogion o’r awdurdod a’r gwasanaeth rhanbarthol, ynghyd ag arweinwyr system a thimau cymorth y cwricwlwm, bellach yn gwella ansawdd yr arweinyddiaeth a’r rheolaeth ar bob lefel mewn ysgolion uwchradd.

**Argymhelliad 3: Gwella cadernid hunanarfarnu a gosod targedau**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad blaenorol yn 2012, mae’r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da yn mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn.  Mae wedi datblygu prosesau priodol ar gyfer hunanarfarnu a gosod targedau yn y gyfarwyddiaeth addysg a dysgu gydol oes.

Mae gan y gyfarwyddiaeth gylch cynllunio blynyddol clir sy’n cael ei ddiweddaru bob tymor.  Mae hyn yn galluogi’r holl staff i wybod beth sy’n ofynnol ohonynt a phryd y mae angen cyflawni camau gweithredu. Yn y cyd-destun hwn, mae’r pwyslais cryf ar osod, monitro ac arfarnu targedau heriol ar gyfer y gyfarwyddiaeth ac ysgolion yn parhau.  Mae swyddogion a staff arweiniol yn cael hyfforddiant priodol i’w helpu i fod yn fwy arfarnol a llai disgrifiadol yn eu hysgrifennu.

Mae’r awdurdod wedi canolbwyntio’n fanylach ar y systemau a’r prosesau y mae eu hangen arno i sicrhau bod yr holl ddata sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl i gryfhau ansawdd yr hunanarfarnu.  Mae dadansoddi data’n well yn cefnogi systemau olrhain yn dda, ac mae defnyddio data’n well yn helpu’r awdurdod i olrhain grwpiau penodol o ddysgwyr yn well.  Mae’r rhain yn cynnwys y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim, plant sy’n derbyn gofal a grwpiau eraill o ddisgyblion agored i niwed.  Mae’r gwaith hwn hefyd wedi helpu’r awdurdod i wella monitro presenoldeb a pherfformiad dysgwyr.

Mae'r holl reolwyr gwasanaeth, yr uwch dîm rheoli, yr aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes a'r tîm rheoli corfforaethol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd herio yn dda. Mae'r swyddogaeth craffu yn cael adroddiadau cynnydd priodol yn ôl cynlluniau a thargedau perthnasol, gan gynnwys cynllun gweithredu ôl-arolygiad Estyn.

Mae'r aelod cabinet yn gweithio'n agos gyda'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes a'r uwch dîm rheoli. Mae'n mynychu cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli yn rheolaidd ac mae ganddi drosolwg da o faterion addysg. Mae ganddi gysylltiad agos â'r broses o gynllunio ymyriadau gydag uwch staff addysg. Mae hyn yn gweithio'n dda, gan sicrhau bod aelodau etholedig yn gallu cael trosolwg da o berfformiad ar lefel ysgolion unigol, a gallant roi her briodol i'r gwasanaeth yn fwy effeithiol.

Yn dilyn hyfforddiant defnyddiol a chyfarfodydd rheolaidd â staff ar ddadansoddi data a hunanarfarnu, mae swyddogion arweiniol bellach yn ail-arfarnu eu meysydd gwasanaeth ac yn crynhoi eu canfyddiadau mewn adroddiadau cryno, defnyddiol. Yna, mae'r swyddogion arweiniol yn cael eu herio gan eu cymheiriaid yn y 'cyfarfodydd herio' sydd newydd eu sefydlu, lle y maent yn destun craffu ynghylch y dystiolaeth ar gyfer eu barnau yn yr adroddiadau arfarnu cryno, a chywirdeb y barnau hynny. Mae'r her hon gan gymheiriaid yn helpu pob swyddog arweiniol i wella'u hunanarfarnu a chynnwys pwyntiau gweithredu priodol yn eu cynlluniau gwella gwasanaeth.

O ganlyniad i hyn, gall swyddogion arweiniol lunio barnau mwy cywir am eu gwasanaethau eu hunain ac mae ganddynt ffocws mwy pendant ar feysydd i'w gwella. Yn ogystal, mae pob swyddog arweiniol wedi cymryd rhan mewn cyfarfod herio ar safonau gydag uwch swyddogion. Mae hyn yn helpu swyddogion i ddatblygu diben mwy eglur o safbwynt sut gall pob rhan o'r gyfarwyddiaeth gyfrannu at wella safonau ar draws gwasanaethau'r awdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyfrannu at lefel uwch o ymddiriedaeth ymhlith ei gilydd, fel y gellir herio'n agored ac yn ddidwyll, gan arwain at ddiwylliant cynyddol o hunanarfarnu effeithiol yn yr awdurdod.

Mae'r awdurdod lleol yn cynyddu ei her i ysgolion uwchradd ynghylch eu targedau ar gyfer perfformiad. Er enghraifft, roedd nifer o ysgolion wedi gosod heriau a oedd yn rhy isel ar gyfer cyfran y disgyblion Blwyddyn 11 y disgwyliwyd iddynt gyflawni trothwy Lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol i ddatblygu targedau sydd wedi'u seilio'n agosach ar wybodaeth ysgolion am bob disgybl unigol a'u disgwyliadau ar gyfer y disgyblion.

O ganlyniad, mae ffocws cliriach ar berfformiad disgyblion unigol yn dod i'r amlwg, sydd wedi'i fabwysiadu gan bob pennaeth uwchradd gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin a dull cyson o osod targedau ym mhob ysgol ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r newid hwn i'r dull o osod targedau wedi arwain at ddisgwyliadau llawer uwch ar gyfer ysgolion a dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar eto i ddangos effaith y dull hwn ar ddeilliannau i ddysgwyr.

Mae'r awdurdod lleol a'r consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol wedi nodi ymyriadau ychwanegol gyda disgyblion ym mhob ysgol i'w helpu i gyflawni eu targedau. Ar hyn

o bryd, mae'r rheolwr Dysgu, Addysg a Chynhwysiant yn adolygu canlyniadau 2013 ar gyfer pob disgybl blwyddyn 11 gyda phob pennaeth, gan arfarnu'n ofalus effaith ymyriadau yn erbyn targedau a herio tanberfformiad yn gadarn.

**Argymhelliad 4: Alinio prosesau cynllunio strategol corfforaethol a phartneriaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wella deilliannau i blant a phobl ifanc**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn gorfforaethol, mae gan yr awdurdod ffocws cadarn ar wella'i brosesau cynllunio ac mae gwaith y gyfarwyddiaeth a Bwrdd y Rhaglen Gwella Llywodraethu yn ategu hyn yn dda.

Mae datblygiad y Cynllun Integredig Sengl yn effeithio'n dda ar gynnydd y cynllunio ar y cyd ar gyfer deilliannau gwell.  Mae cysondeb rhwng y gyfarwyddiaeth a'r partneriaethau ehangach yn gliriach, a cheir cysylltiadau gwell rhwng dogfennau strategol allweddol.

Nododd adroddiad arolygu Estyn fod prosesau cynllunio yn rhy gymhleth a bod diffyg eglurder ynghylch pa mor dda yr oedd cynlluniau trefniadau partneriaethau ehangach yn cysylltu â blaenoriaethau'r cyngor.  Nodwyd hefyd ei bod hi'n anodd nodi pa mor dda yr aethpwyd i'r afael â blaenoriaethau oherwydd diffyg cysondeb y blaenoriaethau cytûn ar draws gwahanol gynlluniau.

Ers hynny, mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn ysgogi gwelliannau mewn prosesau cynllunio ar lefelau corfforaethol a chyfarwyddiaeth.  Ynghyd â'r gwelliannau mewn hunanarfarnu, gosod targedau a rheoli perfformiad, mae hyn wedi cael effaith glir ar ddatblygu newid diwylliannol ar draws y sefydliad tuag at gynllunio a rheoli perfformiad.  Lluniwyd hyn i helpu swyddogion a phartneriaid gael dealltwriaeth well o ddiben y prosesau hyn a sut i wella'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau drwy ddefnyddio'r prosesau yn effeithiol.

Mae uwch dîm arwain y gyfarwyddiaeth addysg a dysgu gydol oes wedi ysgogi newidiadau sylweddol i gynllunio dysgu ar draws y fwrdeistref sirol, yn yr awdurdod a chyda phartneriaid allanol.  Mewn un enghraifft, mae'r rheolwr ar gyfer dysgu, addysg a chynhwysiant ar y cyd â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi datblygu newidiadau sylweddol yn y dull o fonitro disgyblion gyda phob ysgol uwchradd. Dyma enghraifft ddiddorol o sut mae'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a gwasanaethau cynhwysiant yr awdurdod lleol yn cydweithio ag ysgolion i adolygu cynnydd dysgwyr unigol ac i gynllunio ar y cyd er mwyn gwella deilliannau dysgwyr. Mae'n rhy gynnar eto i farnu llwyddiant y dull hwn.

Ar lefel gorfforaethol, mae'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes, sydd hefyd yn ddirprwy brif weithredwr dros dro, wedi gweithio'n agos â'r cyn brif weithredwr dros dro, y prif weithredwr dros dro presennol a'r tîm rheoli corfforaethol, i rannu'r gwelliannau mewn prosesau cynllunio a gyflawnwyd yn ei chyfarwyddiaeth.  Mae hyn yn llwyddo i fynd i'r afael ag argymhelliad Estyn ar gyfer gwelliant ac mae hefyd yn ategu'r newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun Integredig Sengl, 'Caerffili'n

Cyflawni', yn dda. Mae dadansoddiad defnyddiol o wasanaethau wedi arwain at ddatblygu fframwaith perfformiad a chyflawniad clir ar gyfer 'Caerffili'n Cyflawni'.

Mae'r gyfarwyddiaeth addysg a dysgu gydol oes wedi sefydlu arweiniad cadarn ar gyfer cynllunio gwella. Mae'r arweiniad yn cynnwys cynllunio i wella'r gyfarwyddiaeth, cynlluniau gwella'r gwasanaeth ac adolygiadau datblygiad personol. Mae'r rhain yn alinio cynllunio â pherfformiad yn effeithiol, ac yn helpu i alluogi'r holl staff i ddeall eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u cyfraniadau tuag at amcanion corfforaethol. Er enghraifft, mae dadansoddiad o wasanaeth y blynyddoedd cynnar yn dangos y cafwyd effaith gadarnhaol sylweddol eisoes yn sgil gwella cynllunio mewn partneriaeth a gweithio ar y cyd.

Trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, mae'r holl bartneriaid wedi cael canllaw defnyddiol iawn i'w helpu i ddeall hunanarfarnu'n well a'u rôl yn y broses honno. Nod y canllaw yw eu helpu i hunanarfarnu eu cyfraniadau eu hunain ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerffili, ar y lefel sy'n gweddu orau iddynt. Mae hyn yn rhoi sylfaen defnyddiol i bob partner ar gyfer gwaith yn y dyfodol gyda phlant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

**Argymhelliad 5: cymryd camau ar frys i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn gyffredinol ac mewn ysgolion uwchradd yn benodol.**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad, mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da o ran yr angen i leihau nifer y lleoedd gwag yn ei ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn. Mae'r cyfathrebu effeithiol rhwng swyddogion ac aelodau etholedig wedi bod yn nodwedd allweddol wrth i'r cynigion a'r cynlluniau ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu gweithgor trawsbleidiol i ystyried yr opsiynau i ad-drefnu ysgolion ac i flaenoriaethu'r ffordd ymlaen. Ystyriodd y grŵp hwn yr opsiynau dros gyfnod deg wythnos a rhoddodd ddiweddariadau rheolaidd i'r aelodau etholedig drwy bwyllgor craffu addysg am oes, y cabinet a'r cyngor llawn.

Cynhaliodd yr awdurdod lleol adolygiad cynhwysfawr o'r lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd ac fe wnaeth ddiweddaru'r cynllun rheoli asedau ysgol a'r cynllun lleoedd ysgol, a roddodd y dystiolaeth ddiweddaraf i'r gweithgor i lywio eu gwaith. Cytunodd y gweithgor ar yr egwyddorion allweddol a ddefnyddiont yn sylfaen i'w penderfyniadau. Mae'r dogfennau wedi'u diweddaru a'r cynlluniau a chynigion manwl wedi helpu'r gweithgor i roi ystyriaeth briodol i'r ystod lawn o opsiynau ad-drefnu ysgolion a gwneud argymhellion dilys i'r cyngor llawn.

Fe wnaeth aelodau etholedig gefnogi'r cynlluniau'n llawn a gweithredu'n bendant i ymgynghori â'r cyhoedd ar gam cyntaf y rhaglen ad-drefnu ysgolion uwchradd. Mae'r awdurdod yn aros am ganlyniad y broses honno. Yn sylfaen i'r cynigion y mae ymrwymiad ariannol cadarn gan yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r awdurdod wedi rhagweld, ar sail nifer go iawn y disgyblion, y bydd y cynigion ad-

drefnu yn lleihau nifer y lleoedd gwag i 16.9% ar draws ysgolion uwchradd ac 11.9% ar draws ysgolion cynradd erbyn Medi 2016.

**Y camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau â'u gwaith gyda'r awdurdod, yn eu rôl gyswllt arferol.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

cc: Llywodraeth Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili